OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1312

## Rheoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005

**Cael gafael ar wybodaeth gan awdurdod bilio at ddiben datblygu cynigion AGB**

**2.**—(1) Pan fydd yr awdurdod bilio perthnasol yn derbyn cais (wedi'i wneud yn unol â pharagraff (2)) gan unrhyw berson sy'n datblygu cynigion AGB, rhaid i'r awdurdod —

(a) paratoi dogfen yn dangos (cyn belled ag y gall yr awdurdod bilio perthnasol ganfod o'i gofnodion bilio ardrethi annomestig ar y pryd) enw pob trethdalwr annomestig a chyfeiriad a gwerth ardrethol pob hereditament a feddiannir, neu (os na feddiannir) a berchenogir ganddo yn ardal ddaearyddol yr AGB arfaethedig; a

(b) darparu copi o'r wybodaeth yn y ddogfen i'r person perthnasol ar ffurf data.

(2) Rhaid i gais o dan baragraff (1) —

(a) bod ar ffurf cais ysgrifenedig i'r awdurdod bilio perthnasol;

(b) cadarnhau bod y person sy'n gwneud y cais yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth ond i bwrpas datblygu cynnig yr AGB fel a ddisgrifir yn y cais;

(c) darparu crynodeb o natur cynigion yr AGB sydd i'w datblygu;

(ch) darparu disgrifiad o'r ardal ddaearyddol ar gyfer yr AGB arfaethedig; a

(d) cynnwys y ffi (os oes un) a godir gan yr awdurdod bilio perthnasol o dan baragraff (4).

(3) Ni chaiff unrhyw berson —

(a) ddatgelu i unrhyw berson unrhyw wybodaeth a ddarperir o dan baragraff (1);

(b) gwneud defnydd o wybodaeth o'r fath,

heblaw at ddiben datblygu cynigion yr AGB fel a ddisgrifir yn y cais a wneir o dan baragraff (1).

(4) Caiff yr awdurdod bilio perthnasol godi tâl ar y person sy'n gwneud y cais am wybodaeth am ddelio gyda'r cais ac am ddarparu'r wybodaeth o dan y rheoliad hwn.

(5) Rhaid i'r awdurdod bilio perthnasol sicrhau bod swm y tâl a godir ganddo o dan baragraff (4) yn rhesymol o ystyried y costau a achosir neu sy'n debygol o gael eu hachosi gan yr awdurdod wrth ddelio gyda cheisiadau a darparu gwybodaeth o dan y rheoliad hwn.